

SESIWN 6: CYMRYD CAMAU YN ERBYN Y NEWID YN YR HINSAWDD

Ystod oedran: 7-11 oed

Amlinelliad Bydd dysgwyr yn archwilio ac yn trafod gwahanol gamau y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Yna bydd dysgwyr yn nodi camau posibl y gallent eu cymryd fel ysgol ac yn eu graddio yn ôl eu rhwyddineb a'u heffaith gymharol. Yn olaf, bydd dysgwyr yn gweithio mewn grŵp i gynllunio eu camau gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.	
Amcanion dysgu <ul style="list-style-type: none">Nodi ystod o gamau posibl y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.Deall y bydd camau gweithredu yn amrywio yn ôl pa mor hawdd y gellir eu cyflawni a'r effaith y byddant yn ei chael.	Deilliannau dysgu <ul style="list-style-type: none">Bydd dysgwyr yn rhestru rhai camau posibl y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.Bydd dysgwyr yn ystyried ac yn graddio gwahanol gamau gweithredu yn ôl eu rhwyddineb a'u heffaith gymharol.
Cwestiynau allweddol <ul style="list-style-type: none">Pa gamau y gellir eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd?Pa gamau y gallwn eu cymryd?Pa mor hawdd fydd y camau hyn i'w cymryd?Pa effaith a gaiff y cam gweithredu hwn?	Adnoddau <ul style="list-style-type: none">Sioe sleidiau B Her yr Hinsawdd: sleidiau 26-31Taflenni gweithgareddau:<ol style="list-style-type: none">Trefnu camau gweithreduTrefnu camau gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawddMatrics effaithGrid cynllunio camau gweithredu

Gweithgaredd 6.1 (30 mun)

Beth y mae cymryd camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd yn ei olygu?

- Dangoswch sleid 27 a gofynnwch i'r dysgwyr beth mae gweithredu'n ei olygu. Eglurwch y gallwn, yn y cyd-destun hwn, feddwl am weithredu fel rhywbeth i helpu i atal sefyllfa (drwg fel arfer) rhag datblygu neu barhau.
- Eglurwch y bydd dysgwyr yn y sesiwn hon yn ystyried ac yn cynllunio camau posibl y gallent eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.
- Dangoswch sleid 28 a labelwch bedair cornel yr ystafell ddosbarth neu'r gofod dysgu yn yr un modd: Fi fy hun, pobl eraill, Fy ffrindiau a Pobl mewn grym. Gofynnwch i'r dysgwyr symud i gornel o'r ystafell yn dibynnu ar eu barn am bwy maen nhw'n meddwl sydd angen gweithredu fwyaf o ran y newid yn yr hinsawdd. Os nad ydynt yn gallu penderfynu, gallant sefyll hanner ffordd rhwng corneli (neu yng nghanol y pedwar).
- Gwahodd dysgwyr mewn gwahanol leoedd i gyfiawnhau eu dewisiadau.
- Nawr gofynnwch i'r dysgwyr sut maen nhw'n meddwl y gallwn ni ac y dylen ni gymryd camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Pa fathau o ffeibr sy'n bodoli? Pwy ddylai gymryd y camau hyn?
- Dangoswch sleid 29 ac eglurwch fod pedwar categori cyffredinol ar gyfer gweithredu:
 - **Meithrin ymwybyddiaeth:** rhannu eich dysgu am effaith ddynol y newid yn yr hinsawdd gydag eraill.
 - **Ymgyrchu:** rhoi pwysau ar wneuthurwyr penderfyniadau a busnesau i wneud yr hyn a allant i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chefnogi cymunedau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
 - **Troi'n wyrdd:** unigolion, ysgolion a chymunedau yn cymryd camau i leihau eu hól troed carbon eu hunain.
 - **Codi arian:** codi arian i elusennau sy'n gweithio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan hanfodol o waith Oxfam. Mae Oxfam yn gweithio gyda chymunedau lleol, gan gysylltu pobl â'r cymorth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Rhowch gopi o Trefnu camau gweithredu (Taflen Weithgaredd 1) i bob grŵp. Ar gyfer pob cam posibl ynghylch y newid yn yr hinsawdd, dylai dysgwyr drafod pa rai o'r categorïau gweithredu y mae'n perthyn iddynt. Efallai y bydd dysgwyr am dynnu sylw at y gweithredoedd mewn gwahanol liwiau.

Gweithgaredd 6.2 (25 mun)

Trefnu camau gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Bydd angen bwrdd ar bob grŵp i rannu naw cerdyn gweithredu. Rhowch gopi i bob grŵp o Trefnu camau gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd (Taflen Weithgaredd 2).
- Yn eu grwpiau, dylai dysgwyr nodi hyd at naw cam posibl y gallent eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Dylent ysgrifennu pob gweithred ar nodyn gludiog ar wahân (neu ddarn o bapur).
- Yna dylai dysgwyr trefnu'r camau posibl hyn ar ffurf diemwnt, yn nhrefn pa mor 'dda' yw'r weithred yn eu barn nhw. Dylid rhoi'r weithred 'orau' ar y brig, ac yna rhes o'r ddau nesaf, yna rhes o dri ac yn y blaen. Mae enghraifft i'w chael isod ac ar sleid 30.
- Pwysleiswch nad oes atebion cywir nac anghywir – bydd manteision ac anfanteision i bob gweithred, a dylai dysgwyr eu rhestru fel y credant orau.

- Gallai dysgwyr ddefnyddio'r Matrics Effaith (Taflen Weithgaredd 3) i'w helpu i raddio eu gweithredoedd. Argraffwch gopi A3 o'r ddalen ar gyfer pob grŵp. Dylai dysgwyr roi pob gweithred yn y blwch priodol yn y tabl yn ôl pa mor hawdd yw'r weithred i'w gwneud a'r effaith a gaiff.
- Caniatewch amser ar ddiwedd y gweithgaredd fel y gall y dysgwyr rannu eu syniadau fel grŵp cyfan. Trafodwch y dewisiadau y mae dysgwyr wedi'u gwneud a'u rhesymau drostynt. Yn olaf, trafodwch y meini prawf a ddefnyddiwyd ganddynt i wneud eu penderfyniadau, er enghraifft, dichonoldeb, priodoldeb, effeithiolrwydd neu gost.

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Gallai'r dysgwyr ddefnyddio rhai o'r syniadau ar gyfer cymryd camau a nodir yn Trefnu camau gweithredu (Taflen weithgaredd 1).

Gweithgaredd 6.3 (10–20 munud)

Dewis gweithred yn erbyn y newid yn yr hinsawdd

- Gall dysgwyr naill ai wneud gweithred fesul grŵp, neu wneud gweithred fel dosbarth cyfan. Mater i'r athro a'r dysgwyr yw penderfynu ar hyn. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio techneg ddemocrataidd o fewn pob grŵp neu ddosbarth i benderfynu ar hyn. Gallai hyn olygu pleidleisio o fewn y dosbarth neu'r grŵp ar gyfer yr opsiwn o'u dewis.
- Os oes gennych fwy o amser gallech ymestyn y gweithgaredd hwn: rhowch un funud i bob grŵp gyflwyno eu syniad gorau i'r dosbarth, ac yna ar y diwedd gall y dosbarth cyfan bleidleisio dros eu hoff ddewis.

Gweithgaredd 6.4 (25 mun)

Camau cynllunio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd

- Pan fydd y syniad mwyaf poblogaidd wedi'i nodi, rhowch gopi i bob grŵp o'r grid cynllunio camau gweithredu (Taflen Weithgaredd 4) i'w chwblhau. Fel arall, gellid cwblhau hyn fel gweithgaredd dosbarth cyfan. Mae'r templed hwn hefyd ar gael ar sleid 31.
- Anogwch y dysgwyr i ystyried a thrafod y canlynol:
 - Beth ydych chi am ei wneud?
 - Pam ydych chi eisiau gwneud hyn?
 - Pa wahanol weithgareddau (neu dasgau) sydd eu hangen i gwblhau hyn? Er enghraifft, dod o hyd i wybodaeth, gwneud poster, ei argraffu a'i ddosbarthu.
 - Pa adnoddau y bydd arnoch eu hangen?
 - Pwy fydd yn gyfrifol am beth?
 - Pa gymorth fydd ei angen arnoch?
 - Pryd y mae'n rhaid ei wneud?
 - Sut y byddwch yn gwybod a ydych wedi bod yn llwyddiannus?
- Dylai dysgwyr ysgrifennu eu cam gweithredu a'r rhesymau dros ddewis y cam hwn ar frig y ddalen. Dylid ysgrifennu'r gweithgareddau (neu'r tasgau) sydd eu hangen i gwblhau'r cam hwn yng ngholofn chwith y tabl. Yna dylid cwblhau'r colofnau sy'n weddill ar gyfer pob un o'r gweithgareddau.
- Ar ddiwedd y gweithgaredd hwn, gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn gwybod beth yw eu camau




nesaf a phwy sy'n gwneud beth.

Syniadau pellach

- Edrychwch ar Byd-Weithio! i gael llwyth o syniadau ar sut i hwyluso dinasyddiaeth fyd-eang weithredol. Rhowch gymorth i'r dysgwyr symud o feddwl yn feirniadol am faterion sy'n bwysig iddynt i gynllunio a chymryd rhan mewn camau gweithredu, a myfyrio ar eu perfformiad ac asesu eu gwaith. Er mai gweithgareddau ar gyfer dysgwyr 11–16 ped yw'r rhain yn bennaf byddai'n ddigon hawdd addasu llawer ohonynt ar gyfer dysgwyr mwy ifanc.

www.oxfam.org.uk/education/resources/get-global

- Gallai dysgwyr greu coeden broblem i werthuso eu dysgu am achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, yn ogystal ag atebion posibl. Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Dylai pob grŵp dynnu amlinellad o goeden ar ddarn mawr o bapur plaen. Dylai dysgwyr ysgrifennu 'Y newid yn yr hinsawdd' ar foncyff y goeden Yna dylent labelu'r gwreiddiau ag achosion y newid yn yr hinsawdd, y canghennau gydag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'r ffrwythau gyda champau posibl y gallent eu cymryd



I gael rhagor o ganllawiau ynghylch defnyddio coed trafod, gweler tudalen 13 o gyhoeddiad Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon gan Oxfam:

<https://oxfamlibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620105/edu-global-citizenship-teacher-guide-091115-cy.pdf?sequence=10&isAllowed=y>

- **Mynnwch wybod rhagor am gamau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig i ymgyrchu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, a sut y gall unigolion a chymunedau gymryd rhan.**
 - The Climate Coalition: www.theclimatecoalition.org
 - Atal Anhrefn Hinsawdd yr Alban: www.stopclimatechaos.scot
 - Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru: stopclimatechaos.cymru

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio'r lluniau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Trefnu camau gweithredu

Taflen gweithgaredd 1

Darllenwch drwy'r rhestr o gamau gweithredu posibl. Ar gyfer pob cam gweithredu, meddyliwch pa gategori gweithredu y mae'n perthyn orau iddo. Efallai yr hoffech dynnu sylw at y camau gweithredu mewn pedwar lliw gwahanol.

- **Meithrin ymwybyddiaeth:** rhannu dysgu am effaith ddynol y newid yn yr hinsawdd gydag eraill.
- **Ymgyrchu:** gofyn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wneud yr hyn a allant i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chefnogi cymunedau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- **Troi'n wyrdd:** unigolion, ysgolion a chymunedau yn cymryd camau i leihau eu hól troed carbon eu hunain.
- **Codi arian:** codi arian i elusennau sy'n gweithio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

- a) Cyflwyno gwasanaeth ar y newid yn yr hinsawdd i roi gwybod i eraill am effaith ddynol y newid yn yr hinsawdd.
- b) Trefnu noson gwis ar y newid yn yr hinsawdd yn y gymuned leol.
- c) Estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o faes llywodraeth leol neu arweinwyr busnes i'r ysgol a threfnu digwyddiad hawl i holi neu ddadl ar y newid yn yr hinsawdd.
- d) Cynnal archwiliad gwastraff yn eich ysgol a defnyddio'r canlyniadau i helpu cynllunio ffyrdd o leihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff yr ysgol.
- e) Trefnu 'X Factor' am yr hinsawdd lle mae holl eiriau cân yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.
- f) Dylunio posteri a thafenni i rannu'r hyn rydych wedi'i ddysgu am y newid yn yr hinsawdd a'u harddangos yn eich ysgol neu yn eich cymuned leol.
- g) Gofyn i'r cyngor lleol wella trafndiaeth gyhoeddus a llwybrau beicio er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio llai ar eu ceir.
- h) Sefydlu 'clwb Eco' a chynllunio camau gweithredu i leihau effaith yr ysgol ar yr amgylchedd
- i) Ysgrifennu erthygl ar gyfer y papur newydd lleol neu siarad ar radio lleol i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd.
- j) Trefnu 'Bake Off' o dan y thema hinsawdd a rhoi'r arian a godir i elusen sy'n gweithio yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.
- k) Perfformio drama am newid hinsawdd yn eich cymuned leol.
- l) Ysgrifennu at eich cynrychiolydd llywodraeth leol i ofyn i'r llywodraeth wneud mwy i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Rhoi posteri o gwmpas yr ysgol i annog pobl i ddiffodd y goleuadau a'r cyfrifiaduron pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
- m) Sefydlu gardd ysgol a thyfu llysiau i'w defnyddio mewn ciniawau ysgol.

'Nawr ceisiwch feddwl am eich enghrefftiau eich hun o gamau gweithredu ar gyfer pob un o'r categorïau.

Trefnu camau gweithredu o ran y newid yn yr hinsawdd Taflen gweithgaredd 2


Pa gamau ydych chi'n meddwl y dylech eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd?

Gweithio mewn grwpiau o dri i feddwl am naw cam gweithredu posibl.

Ysgrifennwch bob cam gweithredu ar nodyn gludiog ar wahân. Nawr ewch ati i drefnu eich syniadau ar ffurf diemwnt, yn nhrefn pa mor 'dda' ydych chi'n meddwl yw'r cam gweithredu. Dylent roi'r cam gweithredu gorau ar y brig, ac yna res o'r ddau orau nesaf, yna rhes o dri, ac ati (gweler y diagram isod).

Cofiwch nad oes atebion cywir nac anghywir – bydd manteision ac anfanteision i bob cam gweithredu, a dylech eu rhestru fel y credwch orau.

Rhannwch eich syniadau fel grŵp cyfan. Archwiliwch y dewisiadau rydych wedi'u gwneud a'r rhesymau drostynt.



Matrics effaith

Taflen gweithgaredd 3

	Effaith uchel	Effaith ganolig	Effaith isel
Hawdd ei wneud			
Eithaf hawdd ei wneud			
Anodd ei wneud			

Grid cynllunio camau gweithredu

Taflen gweithgaredd 4

Beth rydym am ei wneud: _____

Pam rydym am wneud hyn: _____

Gweithgarwch	Yr Adnoddau Angenrheidiol	Pwy sy'n gyfrifol?	Y cymorth sydd ei angen	Papurau	Tystiolaeth o lwyddiant

